**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Prif Weithredwr Archwilio Cymru

19 Mehefin 2024

Annwyl Adrian,

Cais i graffu ymhellach ar Drafnidiaeth Cymru a Phrosiect Moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad diweddaraf am Drafnidiaeth Cymru a gwasanaethau rheilffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024. Yn ei adroddiad, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu'r Senedd ac Archwilio Cymru ystyried a oes angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru graffu ymhellach ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd a phrosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd drwy ymgymryd ag astudiaeth gwerth am arian.

Yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer costau'r prosiect oedd £738 miliwn, a hynny yn 2018, ond mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n sylweddol ac mae wedi codi £306 miliwn. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod chwyddiant a digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld, fel pandemig COVID-19 wedi creu heriau difrifol, ond roedd maint y cynnydd yn peri pryder arbennig.

O'n trafodaethau gyda Trafnidiaeth Cymru, daeth i'r amlwg y gellid priodoli tua thraean o'r cynnydd yn y costau i 'gyfyngiadau seilwaith'. Fe'n synnwyd na chafodd cyfyngiadau o'r maint hwn eu rhagweld na'u nodi'n gynharach yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect. Yn ogystal â hyn, roedd

Trafnidiaeth Cymru yn honni y gellid gwario £20-30 miliwn yn llai ar gyllideb metro de Cymru heb beryglu diogelwch na’r gwasanaethau. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Drafnidiaeth Cymru yn y cyswllt hwn.

Wynebodd Trafnidiaeth Cymru heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys bwlch ariannol o £100 miliwn yn deillio o ddiffyg twf refeniw a ragwelir gan wasanaethau rheilffyrdd. Er bod y cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 wedi'i "nodi'n sylfaenol" yng nghyllideb TrC ar gyfer y blynyddoedd i ddod, rydym yn parhau i bryderu y bydd TrC a, thrwy estyniad, Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn agored yn ariannol os na fydd refeniw farebox yn dod i'r amlwg ar lefelau disgwyliedig.

O ystyried y buddsoddiad sylweddol a'r risgiau cysylltiedig a'r ffaith nad yw Pwyllgorau'r Senedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth fewnol Trafnidiaeth Cymru sy'n hanfodol i ddeall y materion dan sylw, credwn y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau rheilffyrdd ac adolygiad gwerth am arian o brosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried y mater hwn ac yn rhoi’ch barn i’r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.